heddwch

gaeaf
2007-8
rhif 45

cnd cymru

yr ymgyrch dros ddiarfogi niwclear

# Sypreis, sypreis!

## Bwrw ymlaen ag olynydd i Trident




Is-gadeirydd CND Cymru Ray Davies - un o'r cyntaf i gael ei restio yn y Gwarchae Mawr ar Hydref 1af (gweler isod a thud. 4)

**Mae'r cynlluniau ar gyfer olynydd i Trident yn parhau er bod hynny'n tramgwyddo, yn glir ac yn sinigaidd, y cytundebau diarfogi ac atal ymlediad rhyngwladol. Hwyrach y dywedwyd wrth y cyhoedd nad yw'r penderfyniad i geisio olynydd i Trident 'wedi cael ei wneud eto' ond mae'n ymddangos fod gwaith eisoes ar y gweill yn Sefydliad Arfau Atomig (SAA) Aldermaston ar yr 'High Surety Warhead'.**

Mae'r project hwn yn cael ei redeg ar y cyd â chynlluniau'r UD i adeiladu amrywiaeth o ddyfeisiau tanio niwclear 'methu'n ddiogel' ar gyfer ei thaflegrau Trident eu hunan sy'n cael eu tanio o longau-tanfor. Mae gweinidogion y llywodraeth wedi gwadu bod unrhyw gynlluniau i ddiweddaru neu ailwampio stoc bresennol y Llynges Frenhinol o 160 o ergydion niwclear. Mae'r ergydion fod i 'bara'n hwy ar y silff' ac ni fyddai angen eu tanio mewn ffrwydrad prawf tanddaearol (byddai hynny'n torri gwaharddiad byd-eang 1998 ar brofion felly).

Mae £2.2 biliwn yn cael ei wario yn SAA Aldermaston i osod yr uwchgyfrifiadur diweddaraf a laser a fydd yn dynwared ffrwydradau niwclear yn lle cynnal profion 'byw'. Mae'r llu o hysbysebion recriwtio newydd ar gyfer y SAA yn cynnwys swyddi 'peiriannwyr trydanol ergydion rhyfel'.

Mae llawer o arian ac ymchwil yn cael eu buddsoddi mewn dylunio'r ergydion, ni waeth beth a ddywedir yn y senedd. Mae popeth yn gweithio tuag at wneud yr arfau yn fwy dibynadwy ac yn fwy cywir – sy'n groes i bob un o nodau'r cytundeb atal ymlediad. Mae'n amhosibl gweithio tuag at nod diarfogi niwclear pan rydych yn y broses o gynhyrchu arfau niwclear gwell eich hunan.

**Mae Blocio'r Bildars yn cyd-drefnu gweithredu uniongyrchol yn erbyn y datblygiadau newydd hyn. Gweler y wefan www.blockthebuilders.org.uk neu ffoniwch 07807 522 454**


## Y gwarchae mwyaf eto

**Ar y 1af o Hydref, ar ôl blwyddyn o warchae di-drais ar y ganolfan llongau tanfor niwclear yn Faslane, 30 milltir i'r gorllewin o Glasgow, dathlodd Faslane 365 amrywiaeth ac effaith y gwrthsafiad sifil hwn yn erbyn arfau dinistr torfol anghyfreithlon Prydain. Daeth grwpiau ac unigolion sydd, mewn gwahanol ffyrdd dyfeisgar, wedi tarfu ar yr ymdrechion i gadw'r busnes niwclear i redeg fel arfer, ynghyd am ddathliad, carnifal o wrthsafiad i anlladrwydd arfau niwclear ac i rannu gweledigaeth o fyd di-niwclear. Restiwyd 171 o brotestwyr y diwrnod hwnnw.**

Er bod blwyddyn Faslane 365 wedi dod i ben gyda'r Gwarchae Mawr, mae'r brotest yn erbyn 'cyfrinach' dywyll, front arfau niwclear Prydain yn parhau. Daeth y fenter, a lansiwyd ar gyfer y flwyddyn pan oedd y penderfyniad i adnewyddu Trident yn cael ei drafod yn y Senedd Brydeinig, â phobl o bob lliw a llun o bob rhan o Brydain a gweddill y byd ynghyd yn Faslane. Daeth grwpiau o bob oed, mor amrywiol â chyfreithwyr a 'chracyrs Nadolig', academyddion, meddygon a bugeiliaid gwartheg o'r Swisdir, a rhai yr holl ffordd o Japan a chyfandiroedd America, i brotestio ynglyn ag anlladrwydd arfau niwclear, gan danlinellu peryglon a gwastraff y paratoadau at ryfel niwclear.

Roedd y 1,150 a restiwyd yn cynnwys mwy na 50 o flocedwyr o Gymru yn ystod y flwyddyn, ac roedd pob un o'r rheini wedi eu cefnogi'n ymarferol ac yn foesol gan lawer o flocedwyr a gweithredwyr eraill ac, yng Nghymru, gan eu teuluoedd, eu ffrindiau ac ymgyrchwyr o bob rhan o'r wlad.

**Faslane 365:**
**131 o Grwpiau Blocêd**
**189 diwrnod o bresenoldeb**
**1150 wedi eu restio**
**66 wedi eu herlyn**
(rhagor o newyddion gwarchae tudalen 4)




Neges ar gyfer Carnedd Heddwch Mynydd Llanllwni (gweler tud. 2)

*y tu fewn:*
**Swyddi Sain Tathan? ... dewiswch nifer a'i ddyblu**
**Faslane 365**
**Gweithredwyr o Gymru yn Efrog Newydd**
**UDA yn camddefnyddio'r gofod**
**Greenham.......** *a mwy.....*

**Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch, chyfiawnder a diarfogi rhyngwladol, a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw a'r amgylchedd**

## Newyddion Mala Heddwch

Cyflwynwyd gwobrau'r Mala Heddwch am eleni mewn seremoni gyflwyno fywiog a dan ei sang yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd ym mis Medi. Gofynnwyd i gystadleuwyr (rhwng 5 a 18 oed) gynhyrchu project sy'n rhannu ac yn hyrwyddo gweledigaeth y Mala Heddwch – menter sy'n cael ei rhedeg o Abertawe, sy'n annog pobl ifanc i fod yn ymwybodol o faterion heddwch, cyfiawnder, goddefgarwch a chyfeillgarwch, a chyfranogi ynddynt.

Enillwyd y Wobr Uwchradd gan Ysgol St Michael's, Llanelli a'r Wobr Iau gan Ysgol Gynradd y Trallwn yn Abertawe. Rhoddwyd Tystysgrifau Clod hefyd i Grup Ieuenctid Salem, Pennsylvania, UDA ac Ysgol Teesdale, Swydd Durham, Lloegr.

**Dysgwch fwy am y Mala Heddwch a'r Gwobrau Ieuenctid ar t: 01792 774 225 e: info@peacemala.org.uk www.peacemala.org.uk**

## Garnedd heddwch

Y garnedd heddwch a adeiladwyd yn 2005 ar Fynydd Llanllwni ger Gwernogle yn Sir Gaerfyrddin. Y gofeb hon yw canolbwynt project sy'n galw sylw at gyflwr bywyd pobl gyffredin ym Mhalesteina, gan hyrwyddo dialog a sgwrsio fel ffordd tuag at ddatrys y gwrthdaro yn heddychlon.

Cwblhawyd y garnedd drwy ychwanegu'r gair Heddwch wedi ei gerfio â llaw yn yr Arabeg, y Saesneg, yr Hebraeg a'r Gymraeg. Bydd y project yn parhau gyda chynulliad ar y 9fed o Ebrill 2008, sef trigain mlwyddiant cyflafan Deir Yassin pan laddwyd nifer fawr o Balestiniaid.

Caiff enwau pentrefi Palestinaidd sydd wedi diflanni ers sefydlu gwladwriaeth Israel ym 1948 eu darllen allan. Gobeithir y bydd hyn yn helpu i alw sylw at gyflwr ffoaduriaid Palestiniaidd, eu hawl i ddychwelyd a'r egwyddor gyfffredinol na ddylid byth caniatáu i 'lanhau ethnig' lwyddo.



# Dim achos i'w ateb

***"Decheuwyd darllen yr enwau am 9am – un enw bob 30 eiliad – Iraciaid a milwyr Prydeinig. Cymaint o fywydau wedi eu colli. Cyn lleied o amser yn cael ei dreulio ar gofio'r pethau yr hoffai ein llywodraeth i ni eu hanghofio."***

O ddisgrifiad o weithred 'No More Fallujahs' mis Hydref 2006 pan gafodd o leiaf 12 o bobl eu cyhuddo o droseddau o dan Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005.

**Yn Llys Ynadon Horseferry Road yn Llundain ym mis Medi, cafodd y Barnwr Quentin Purdy nad oedd achos i'w ateb, a gwrthod pob cyhuddiad yn erbyn pump o brotestwyr heddwch, ar ôl gwrandawiad maith, a oedd yn ffars ar brydiau, ac a barodd am bron bedair awr.**

Cawsai'r pump - Brian Barlow, Steve Barnes, Genny Bove, Rob Clohesey a David King – eu cyhuddo o dan y Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu (SOCPA) o gymryd rhan mewn 'gwrthdystiad nad awdurdodwyd' o fewn yr 'ardal ddynodedig' o gwmpas Senedd San Steffan ym mis Hydref 2006. Mae SOCPA wedi dileu'r hawl i brotestio o fewn cilomedr i'r Senedd heb ganiatâd o flaen llaw gan yr heddlu, a gall yr heddlu bennu amodau ar leoliad a hyd y gwrthdystiad, maint y baneri a'r nifer o bobl a gaiff brotestio.

**Rhyddid Mynegiant**

Ger bron y llys, dadleuodd y diffynnydd Genny Bove, o Wrecsam, y byddai'n anghyfreithlon bwrw ymlaen â'r achos ac yn gamddefnydd o'r broses, gan grybwyll dyfarniadau'r Llys Hawliau Dynol Ewrop ynglwn â'r amodau a'r prosesau clir a'r canlyniadau rhagweladwy a ddylai reoli unrhyw gyfyngiadau ar yr hawl i fynegiant. Wedi trafodaeth bellach am y drefn o safbwynt 'buddiannau'r cyhoedd', cafodd y diffynyddion gyfle i sôn rhywfaint am y digwyddiadau a oedd yn gefndir i'w protest, eu cymhellion a'u gofid o ganfod eu bod yn cael eu trin fel troseddwyr am goffáu'r meirw.



**Taflu allan**

Roedd y barnwr yn anfodlon ar yr holl achos, gyda'r rhybuddion a'r mapiau a oedd wedi cael eu cyflwyno gan yr heddlu, a'r diffyg tystiolaeth fod y diffynyddion wedi cael rhybudd o gwbl. Gwrthododd ganiatáu i dyst munud-olaf – uwch-swyddog heddlu – i dystio, ac ni dderbyniodd fod y ddadl fod y gwrthdystiad heb ei awdurdodi wedi cael ei phrofi.

Ar ddiwedd achos yr erlyniad, dadleuodd y diffynyddion nad oedd achos i'w ateb, a thaflwyd yr achos allan. Dyfarnwyd costau i'r pump ac roeddynt yn rhydd i fynd.

**Sgwâr y Senedd**

Ar Hydref 8fed, wrth i Senedd San Steffan ailgychwyn ar ôl egwyl yr haf, gorymdeithiodd rhai miloedd o brotestwyr yn erbyn y rhyfel i mewn i Sgwâr y Senedd. Ymunwyd â nhw gan bobl a oedd yn mynnu'r hawl sylfaenol i brotestio'n heddychlon heb orfod cael caniatâd yr heddlu o flaen llaw neu ufuddhau i amodau..

Yn sgîl cyrch ar wersyllfan cyfreithlon Brian Haw a phrotestwyr heddwch eraill yn y Sgwâr gan dîm Awdurdod Llundain Fwyaf y Maer Livingstone ar yr 17eg o Awst, codwyd rhwystr metel o gwmpas y Sgwâr.

# Croeso i Gymru i wneuthurwyr clwstwr-fomiau

**Roedd y Dydd Gweithredu Byd-eang yn erbyn Clwstwr-fomiau ar Dachwedd 5ed yn tanlinellu pryder y cyhoedd ynglwn â chlwstwr-fomiau a'u heffaith ar sifiliaid. Galwodd ymgyrchwyr, dan arweiniad y Glymblaid Cadoffer Clwster, ar lywodraethau i ymuno â'r ymgyrch ryngwladol dros gytundeb i'w gwahardd.**

Er bod y llywodraeth Brydeinig wedi addo cefnogaeth i'r fath waharddiad, mae wedi datgan yn y cyfamser ei bod yn bwriadu dal i gadw math arbennig o glwstwr-fom yn ei harfogaeth, er y profwyd gan ei ddefnydd yn Libanus ei fod yn lladd yn ddiwahân. Yn 2005, rhoddwyd cynnig ger bron y Senedd Ewropeaidd i wahardd buddsoddi mewn cwmnïau, fel Raytheon, sy'n cynhyrchu cadoffer clwstwr. Mewn ymateb i hynny, mae Norwy a Gwlad Belg eisoes wedi cefnogi'r alwad hon, ac mae Cyngor Dinas Lerpwl wedi gwneud safiad tebyg yn ddiweddar hefyd.

Ac eto, mae llywodraeth Cymru wedi anwybyddu'r holl bryderon hyn ac, yn hytrach, wedi lansio project Academi Sain Tathan gyda chonsortiwm o gwmnïau sy'n cynnwys Raytheon. Mae Raytheon yn aelod allweddol o Gonsortiwm Metrix a enillodd y cytundeb ar gyfer Academi Hyfforddi Amddiffyn Sain Tathan ym mis Ionawr 2007. Mae Raytheon yn gwadu ei fod yn cynhyrchu clwster-fomiau, ac eto mae'n cynhyrchu bomiau sydd â'r un priodoleddau yn union.**

Mae'r Glymblaid Cadoffer Clwster wedi galw am gymryd y cam pellach o wahardd buddsoddi mewn cwmnïau sy'n cynhyrchu cadoffer clwstwr. Yn 2005, gwaharddodd y Corff Cynghori ar Foeseg ar gyfer Cronfa Petroliwm Llywodraeth Norwy Raytheon rhag bod yn rhan o'r Gronfa, ynghyd â gwneuthurwyr cadoffer clwster eraill.

Caniau sy'n cynnwys cannoedd o fomiau bychain yw clwstwr-fomiau, sy'n gwasgaru eu cynnwys dros arwynebedd eang os cânt eu gollwng neu eu tanio. Gollyngwyd miliynau yn y rhyfeloedd diweddar yn Kosovo, Afghanistan ac Irac, gan ladd a chlwyfo sifiliaid. Mae clwstwr-fomiau yn tramgwyddo Cytundebau Genefa gan nad ydynt yn gwahaniaethu. Gan na fyddant yn ffrwydro ar unwaith, maent yn gweithredu fel ffrwydron tir a gallant ffrwydro ar unrhyw adeg, gan ladd a chlwyfo amser maith wedi i wrthdaro ddod i ben.

Ceir mwy o wybodaeth am gadoffer clwster a'r ymgyrch yn eu herbyn yn:
www.stopclustermunitions.org
www.handicap-international.org.uk
www.landmineaction.org

** Bom Raytheon a darodd farchnad Shu'ale yn Baghdad yn 2003, gan ladd o leiaf 62 o sifiliaid. Bom Raytheon a darodd Qana yn 2006, gan ladd o leiaf 28 o sifiliaid, yn cynnwys 16 o blant.

**heddweithredu:**
**Ydyn ni, o ddifri calon, am i'r fath gwmni 'fuddsoddi' yng Nghymru? Da chi, rhowch wybod i'ch cynrychiolwyr etholedig beth yw eich teimladau ar y mater hwn. Am fwy o wybodaeth am Academi Sain Tathan, gweler www.cynefinywerin.org.uk**

# Gwahardd clwstwr-fomiau

**Mae clwstwr-fomiau wedi bod yn lladd ac anafu sifiliaid ers mwy na deugain mlynedd. Mae 'Proses Oslo', a lansiwyd ym mis Chwefror 2007, â'r nod o sicrhau cytundeb yn gwahardd clwstwr-fomiau erbyn diwedd 2008, yn yr un modd ag y cafodd ffrwydron tir eu gwahardd.**

Mae Prydain yn dadlau y dylai'r ddau fath o glwstwr-fomiau sydd ganddi gael eu heithrio rhag y cytundeb hwn:

- Yr M85, sy'n cael ei danio o ynnau, a ddefnyddiwyd gan Brydain yn Irac ac, yn fwy diweddar, gan Israel yn Libanus. Mae pob ffrwydryn yn hollti'n 49 o fomiau bychan sy'n cael eu lledaenu dros arwynebedd eang, sydd bron yn sicr o anafu sifiliaid. Mae'r rheini nad ydynt yn ffrwydro'n syth i fod i ddifa eu hunain, ond yn ôl y llywodraeth, methodd 2.3% ohonynt hunan-ddifa. Nododd Pwyllgor Dethol Ty'r Cyffredin ar Faterion Tramor y gallai 'cyfradd fethiant clwstwr-fomiau '"clyfar" fod mor uchel â 10%, yn sylweddol uwch nag amcangyfrif y llywodraeth o 2.3%'
- Yr M73 a gafodd ei ddisgrifio yn Senedd San Steffan gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn 2006 fel clwstwr-fom, ond nad yw, erbyn 2007, 'yn dod o fewn yr hyn y mae'r DU yn ei ddeall fel cadoffer clwster'! Swnio'n ddigon tebyg i Windscale yn troi'n Sellafield …

**heddweithredu:**
**Da chi, sgrifennwch at eich AS yn canmol cefnogaeth y DU i Broses Oslo i wahardd clwstwr-fomiau, ond gan fynnu fod yn rhaid i glwster-formiau y DU ei hun – yr M85 a'r M73 – gael eu cynnwys yn y gwaharddiad.**

**Gwybodaeth bellach: www.stopclusterbombs.org**

Academi Hyfforddiant 'Amddiffyn' Sain Tathen

# Tynnu swyddi o'r het

**Mae gwleidyddion sydd o blaid Academi 'Amddiffyn' arfaethedig Sain Tathan yn pwysleisio agwedd 'greu swyddi' y project. Ond faint o swyddi gaiff eu creu, mewn gwirionedd?**



graffig: Dai Owen

Y peth cyntaf y dylid ei ddweud yw na wyr neb ar y foment. Dyfalu yw'r cwbl, ac mae 'na ddyfalu gwyllt wedi bod! Mae'r cyhoeddiad diweddar na fydd 'Pecyn 2' y project yn mynd yn ei flaen wedi gwneud hyd yn oed y dyfaliadau gwreiddiol yma'n ddiystyr. Mae'r 'swyddi newydd' sydd i fod i ddod i Fro Morgannwg mewn dau faes – swyddi adeiladu a swyddi a fyddai'n cael eu creu ar y safle ac oddi arno pe bai'r project byth yn cael ei adeiladu.

### Adeiladu

Dydy cefnogwyr y cynllun ddim yn wir yn gallu cytuno beth fydd nifer y swyddi adeiladu. Mewn tystiolaeth ger bron y Pwyllgor Materion Cymreig ym mis Gorffennaf 2006, dywedodd Jane Hutt AC y byddai yna '1,500, o bosib' tra dywedodd Chris Bryant AS wrth yr un pwyllgor y byddai 'yng nghyffiniau 1,000' yn cael eu cyflogi yn y broses adeiladu. Bid a fo am y nifer go iawn, bydd yn cael ei adeiladu gan weithlu a fydd yn gorfod edrych am waith arall cyn gynted ag yr arllwysir y kilo olaf o goncrid.

### Gweithlu'r Academi

Roedd y rheini a oedd yn tystio ger bron y Pwyllgor Materion Cymreig yn cymryd yn ganiataol y byddai Metrix, a oedd yn wreiddiol wedi ymgeisio am y ddau 'Becyn' i ddatblygu'r Academi, yn eu sicrhau. O ganlyniad, roedd yr amcangyfrif o nifer y swyddi a fyddai'n cael eu creu yn seiliedig ar y dybiaeth honno. Ers Hydref 25ain, aeth 'Pecyn 2' i'r gwellt, gan fynd â rhyw 40% o'r hyfforddedigion tybiedig gydag ef, felly ymddengys mai doeth fyddai cwtogi ar y dyfaliadau cynharach o ryw 40% hefyd. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2006, dywedodd Andrew Davies AC y câi 'mwy na 4,000' o swyddi eu creu, tra soniai Jane Hutt am 'greu 5,500 o swyddi parhaol'. Honnai Chris Bryant, yn gyffro i gyd, y gallai fod yna '5,500 o swyddi' a chan gynhesu at ei gynulleidfa, 'neu 6,000 efallai'. Dichon ei bod hi'n ffodus iddo fynd yn ei flaen i ganu clodydd 'pwll nofio maint Olympaidd' a 'Chwaraeon Olympaidd 2012' neu dyn a wyr pa ffigwr y byddai wedi ei gyrraedd cyn diwedd y sesiwn!

Bu un cynghorydd Llafur blaenllaw o Fro Morgannwg mor hy â hawlio mai 'Hwn fydd y buddsoddiad unigol mwyaf yng Nghymru, a bydd yn creu, yn uniongyrchol neu'r anuniongyrchol, 14,000 o swyddi, swyddi o ansawdd, ar gyflogau da, sydd eu hangen arnom ar gyfer Cymru.'

### Lleoliad lleoliad lleoliad

A fydd y swyddi hyn yn cael eu 'creu', mewn gwirionedd? Wel, na, a dweud y gwir. Meddai Arweinydd Project yr Arolwg Hyfforddiant Amddiffyn, y Brigadydd Nield wrth roi tystiolaeth ger bron y Pwyllgor Cymreig, 'Y peth pwysicaf yw'r dimensiwn pobl; mae hyn yn golygu trosglwyddo nifer sylweddol o unigolion.' Felly bydd pa swyddi bynnag a greir yn Sain Tathan yn cael eu llenwi gan weithwyr sydd ar hyn o bryd yn cael eu cyflogi mewn rhannau eraill o Brydain, a fydd o bosib yn cael eu trosglwyddo o gyflogaeth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn i swyddi gydag aelod o gonsortiwm Metrix. Fel pe bai i bwysleisio'r pwynt hwn yn ei dystiolaeth, dywedodd Nick Evans, yn cynrychioli'r Weinyddiaeth Amddiffyn, 'fel pob adran, rydym dan reolaeth mater Lyons ...'. Mae hyn yn golygu y bydd y swyddi hyn a ail-leolir yn cyfrif tuag at y targed a bennwyd gan lywodraeth Llundain yn ei hymgais i symud swyddi gwasanaeth sifil allan o Lundain a de-ddwyrain Lloegr a'u dosbarthu o gwmpas Prydain. Bydd pwysau arnynt i wneud i gymaint o swyddi Sain Tathan ag sy'n bosibl gyfrif fel 'ail-leoliadau' er mwyn cyfrannu tuag at dargedi Lyons.

Tra'r oedd yr ACau Rhodri Morgan, Andrew Davies a Jane Hutt yn chwistrellu siampaen ac yn croesawu'r Academi gyda phenawdau papur-newydd fel '*Base to bring Job Bonanza*', cyfrannodd EDS – un o aelodau consortiwm Metrix – elfen o realaeth yn ei ddatganiad i'r wasg ynglyn â'r academi newydd drwy rybuddio 'ni ellir disystyru'r posibilrwydd y gwneir rhai yn ddiwaith wedi'r trosglwyddiad.'

Mae'r Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) sy'n cynrychioli llawer o'r bobl a gyflogir ar hyn o bryd i ddarparu hyfforddiant milwrol ar nifer o safleoedd ym Mhrydain, yn dweud y bydd pobl yn colli eu swyddi – efallai cymaint â 2,000; rhai yn orfodol, tra bydd y rhai fydd yn cael eu hailgyflogi ar gytundebau cyflogaeth gwaeth ac ar drugaredd y sector preifat.

O'r gweithwyr ar y safle nad ydynt yn ymwneud â hyfforddi, bydd llawer ar gyflog lleiafswm – heb nemor ddim hyfforddiant a dim gwir ragolygon yn eu swydd. Mae gan nifer o aelodau'r consortiwm record o arferion cyflogi gwael ac o dalu chyflogau isel i weithwyr ym mhedwar ban y byd.

### Dyfalu yw'r cwbl

Felly, mae unrhyw ffigurau a gynhyrchir gan y lobi o blaid yr Academi yn gyfuniad o obeithion ofer, dyfalu, rowndio i fyny ac ychwanegu at ei gilydd. A gyda dileu 'Pecyn 2', maent wedi goramcangyfrif ac yn anghywir o ryw 40%. Beth bynnag fo'r nifer, nid swyddi wedi eu creu mo'r rhain, ond swyddi wedi eu hail-leoli. Ar y gorau, mae 'bonanza swyddi' de Cymru yn golygu 'colli swyddi' i weithwyr mewn rhannau eraill o Brydain.

**B.Deethe**

**heddweithredu:** **Gweler www.cynefinywerin.org am wybodaeth ynglyn ag ymuno yn yr ymgyrch, arwyddo'r ddeiseb, neu cysyllter ag CND Cymru (gweler tud. 8). Mae *Academi Hyfforddiant Amddiffyn Sain Tathan a Dyfodol Cymru* gan Stuart Tannock ar gael gan jamesmaiden@wcia.org.uk ar ffurf copi caled neu gellir ei lawrlwytho o wefan Cynefin y Werin. Mae'r ymgyrch 'Dywedwn Na wrth yr Academi Filwrol' yn cwrdd yn gyson yng Nghaerdydd, cysyllter ag Anne Greagsby am fwy o wybodaeth:**
**t: 02920 626 287**
**sym: 07817513610**
**e: Annegre@aol.com**

## Academi Filwrol Sain Tathan

Canolfan hyfforddi ar gampws anferth, newydd, wedi ei redeg yn breifat, ar gyfer bob un o dri gwasanaeth lluoedd arfog Prydain fydd Academi Amddiffyn arfaethedig Sain Tathan, ym Mro Morgannwg, 13 milltir o Gaerdydd. Y bwriad yw y bydd wedi ei hadeiladu ac yn weithredol erbyn 2013. Caiff ei hadeiladu a'i gweithredu gan Gonsortiwm Metrix **(gweler uchod/isod/ar y chwith/ar y dde)** ac mae'n cynrychioli cam mawr yn ymdrechion y llywodraeth Brydeinig i 'foderneiddio' hyfforddiant amddiffyn, cwmpasu ffyrdd technolegol uwch o ddatrys problemau milwrol, a dibynnu ar y sector preifat i'w redeg.

Y cynllun gwreiddiol oedd y byddai pob recriwt milwrol ym Mhrydain yn cwblhau 'cyfnodau 2 a 3' o'u hyfforddiant milwrol yn yr academi. Mae'n bosibl fod y cynlluniau hyn wedi newid wedi i 'Becyn 2' gael ei roi o'r neilltu ym mis Hydref. Disgwylir y bydd recriwtiaid milwrol o wledydd eraill yn ogystal â rhai o wasanaethau diogelwch a hel cudd-wybodaeth eraill yn dod i Sain Tathan fel rhan o 'farchnata' yr hyfforddiant milwrol hwn a'i 'allforio'.

Disgwylir y bydd yr academi yn costio rhyw £16 biliwn i'r trethdalwr. Caiff ei hadeiladu fel menter cyllid cyhoeddus preifat a honnir ei bod 'yn cynrychioli un o'r buddsoddiadau mwyaf gan y llywodraeth yn hanes Cymru'. Wrth i ni fynd i'r wasg, does dim ffigurau diwygiedig wedi ymddangos ar gyfer Pecyn 1 yn unig.

Mae Tony Benn wedi ychwanegu ei enw at ddeiseb sy'n gwrthwynebu'r cynlluniau i adeiladu'r academi yn RAF Sain Tathan.

### Pecynnau 1 a 2

Oherwydd fod datblygiad arfaethedig yr Academi Filwrol yn Sain Tathan mor fawr, bu'n rhaid rhannu'r project yn ddwy ran fel na fyddai'n torri rheolau'r UE ar gystadlu.

Mae **Pecyn 1** yn cynnwys hyfforddiant mewn peirianneg awyrennol a mecanyddol, cyfathrebu a systemau gwybodaeth.

Roedd **Pecyn 2** yn cynnwys hyfforddiant mewn logisteg, cyd-weinyddu heddlu a staff, diogelwch, ieithoedd, cudd-wybodaeth a ffotograffiaeth.

Enillodd consortiwm Metrix y cytundeb yn ei grynswth am mai dyna'r unig grwp a oedd yn ymgeisio am y ddau 'becyn' ac ar y pryd, hawliai gwahanol weinidogion y byddai rhoi'r ddau gyda'i gilydd i Metrix yn arwain at arbedion maint. Dywedodd gweinidog o'r Weinyddiaeth Amddiffyn mewn datganiad seneddol ym mis Hydref eleni "nad oedd digon o arbedion" yn awr i fwrw ymlaen a bod y Weinyddiaeth yn ystyried "amrywiaeth o ddewisiadau", er mwyn sicrhau "project fforddiadwy". Golygodd hynny atal y cynlluniau ar gyfer Pecyn 2. A ydy cefnogwyr yr academi yn awr yn gofyn y cwestiwn 'Ai cynnig Metrix yw'r "gorau" o hyd ar gyfer Pecyn 1 yn unig'?

### Metrix

Cwmni menter ar y cyd yw Consoriwm Metrix, a enillodd yr hawl i adeiladu a rhedeg Academi Hyfforddiant Milwrol arfaethedig Sain Tathan, sy'n cynnwys rhai o fuddsoddwyr a chynhyrchwyr arfau mwyaf pwerus y byd: Land Securities, Trillium a Qinetiq, mewn partneriaeth â cwmnïau is-gontractio eraill: Agusta Westland, City and Guilds, Currie and Brown, Dalkia, EDS, Laing O'Rourke, Nord Anglia, Raytheon, Serco, Sodexho a'r Brifysgol Agored.

### Adroddiad Lyons

*Well Placed to Deliver? Shaping the Pattern of Government Service*, Syr Michael Lyons, Mawrth 2004 Roedd yr adroddiad hwn, arolwg annibynnol o adleoli yn y sector cyhoeddus, yn cynnig y dylid adleoli miloedd o weision sifil sy'n gweithio yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr ar hyn o bryd i rannau eraill o Brydain.

# Hibakusha yn Faslane yn dweud 'Byth Eto'

**Dichon mai'r blocêd mwyaf emosiynol yn Faslane 365 oedd hwnnw gan rai a oroesodd y bomiau atomig a ollyngwyd ar Japan (yr Hibakusha) a deithiodd i Faslane ym mis Gorffennaf. Gosododd y grwp o Japan grehyrod heddwch origami o flaen y brif glwyd. Wrth i'r heddlu ddod i symud yr adar papur, eisteddodd pedair mam-gu o Fukuoka a mab un o oroeswyr bom Nagasaki o flaen y glwyd, tra bu pump arall, yn cynnwys ei dad ac ymgyrchwyr heddwch o Hiroshima, Nagasaki a'r Ffindir, yn cydgloi eu hunain ynghyd gan ddefnyddio cloeon breichiau bambw.**

Eisteddodd y pedair menyw oedrannus a'r dyn ifanc o flaen y glwyd yn canu caneuon heddwch Japaneaidd, a threuliodd yr heddlu yn agos at awr yn torri'r blocêd bambw er mwyn ailagor y glwyd. Cafodd pedwar dyn Japaneaidd a gwraig o'r Ffindir eu cyhuddo o 'dorri'r heddwch'.

Wrth iddo gael ei restio, dywedodd Masahiko Moriguchi, pennaeth pwyllgor golygyddol y cylchgrawn *Testimony – Voices of Hiroshima and Nagasaki* a fu byw drwy'r bom atomig ar Nagasaki pan oedd yn saith mlwydd oed: 'Mae ymgyrch Faslane 365 ym Mhrydain yn annog y cam cyntaf oes-newidiol tuag at ddileu arfau niwclear drwy alw ar Brydain i ymwrthod â Trident. Fel un a gafodd brofiad o'r bom atomig, roeddwn am weld y ganolfan niwclear hon â'm llygaid fy hun a chymryd rhan yn y weithred hon i atal arfau niwclear.'

Roedd ei fab, Shinya Moriguchi, ymhlith y rhai a osododd adar papur wrth y brif glwyd. Dywedodd yntau: 'Nid dim ond mater i Brydain yw penderfyniad y llywodraeth Brydeinig p'run ai i adnewyddu Trident ai peidio, oherwydd bydd yn dylanwadu ar ymlediad ac anniogelwch ym mhedwar ban y byd. Gobeithio y penderfyna Prydain yn ddoeth ac yn rhesymegol, ac arloesi'r ffordd tuag at ddiarfogi niwclear a fyddai'n gwneud y byd hwn yn fwy diogel.'

Cyn cael ei restio yn y Blocêd Bambw, dywedodd Kohei Ueyama o Hiroshima ei fod wedi dod i Faslane i sefyll ochr yn ochr â phobl yr Alban a oedd yn gweithredu'n ddi-drais i gael gwared o Trident: 'Os gwnawn rywbeth dros heddwch yn ein bro ac yn ein gwlad, gallwn ddatrys unrhyw broblem ryngwladol.'

Roedd sawl aelod o'r ddirprwyaeth yn athrawon prifysgol, yn wyddonwyr ac yn athrawon ysgol. Dywedodd Yoshiko Sakai, cemegydd cwantwm sydd wedi ymddeol, ei bod 'yn eiddgar i Brydain fod y wlad gyntaf i gael y fraint o ddileu arfau niwclear'. Ychwanegol yr athro ffiseg Kouichi Toyoshima, 'Fel aelod o'r gymuned wyddonol, teimlaf ei bod yn ddyletswydd arnaf i wneud fy ngorau glas i ddileu pob arf o'r fath o'r byd, gan fod yn rhaid i wyddonwyr heddiw dderbyn cyfrifoldeb ein rhagflaenwyr.'


Daeth Eisaku Miyoshi, Athro Peirianneg o Fukuoka, ag arddangosfa o ffotograffau a pheintiadau o Hiroshima a Nagasaki gydag ef. Wrth iddo gael ei restio, dywedodd, 'Rhaid i ni dystio i arswyd arfau niwclear, fel na chânt byth mo'u defnyddio yn y byd hwn eto.'




# O Gymru i'r Alban

**Roedd y rhai a restiwyd yn ystod y Gwarchae Mawr ar y 1af o Hydref yn cynnwys gweithredwyr o bob rhan o Gymru. Ymunodd myfyrwyr, clowniau, a'r ddraig goch ddrygionus â'r blocedwyr lliwgar, hapus ond cwbl ymroddedig. Yng nghanol y paent pinc, y baneri a'r cloeon, siwpergliw, trybeddau a chadwyni, roedd barddoniaeth, dawnsio a chanu, hiwmor, gweddïo a thrafod dwys. Ymunodd Jill Evans ASE, Cadeirydd CND Cymru â'r gwarchae ynghyd â llawer o gynrychiolwyr etholedig eraill o'r Alban. Diolch i bawb a gymerodd ran yn Faslane 365, bu Gare Loch hardd yn dyst i weithgareddau dynol mwy positif na chlwyf hyll y ganolfan arfau niwclear sy'n gywilydd ar ei glannau.**



## Adeiladu Cefnogaeth yn y Senedd i ddau EDM newydd

**Gallai cyfeiriadau yn y drafft o Ddeddf Adnewyddu Cyfansoddiadol yn Araith y Frenhines yn y senedd hwn sicrhau mai Tw'r Cyffredin, ac nid y Prif Weinidog yn unig, fydd â'r hawl i fynd i ryfel yn y dyfodol. Mae'n hanfodol fod y puer i anfon lluoedd Prydeinig i ymladd o dan reolaeth y senedd ac nid y llywodraeth. Deddfwriaeth gadarn, nid confensiwn seneddol, yw'r unig ffordd y gall y mesur hwn ennill ymddiriedaeth y mwyafrif sy'n teimlo eu bod wedi cael eu bradychu dros Irac.**

Does dim arwydd o hyd fod y llywodraeth ag ymrwymiad i sicrhau diarfogi niwclear byd-eang. Nid yn unig y mae'n parhau i wrthwynebu sefydlu Cytundeb ar Arfau Niwclear gyda chefnogaeth y CU, ond mae hefyd yn parhau i gefnogi rhaglen Amddiffyn Taflegrau yr UD drwy ddarparu canolfannau milwrol yma ym Mhrydain. Yn y datblygiad diweddaraf, cytunodd y llywodraeth i ganiatáu i'r UD ddefnyddio gwersyll Menwith Hill yn Swydd Efrog, Lloegr ar gyfer rhan o'r rhaglen Amddiffyn Taflegrau, a hynny heb unrhyw ddadl neu archwiliad seneddol. Mae hyn yn amlwg yn gwbl groes i'w honiadau ei bod yn 'fwy agored ac atebol'.

**heddweithredu:** **Sicrhewch fod eich AS yn codi'r materion hyn ac yn cefnogi'r Cynigion Boreol a ganlyn (EDM 72 a 65 gweler tud. 8). Mae o bwys hanfodol adeiladu cefnogaeth gref yn gynnar yn oes y senedd newydd i sicrhau'r drafodaeth gyhoeddus ehangaf bosibl. Gallwch anfon llythyr drwy'r post at 'Eich' AS, Tw'r Cyffredin, Westminster, Llundain SW1A0AA neu ebost drwy'r wefan www.theyworkforyou.com Os ydych yn fyr o amser, mae llythyron drafft ar gael ar www.cndcuk.org ond y peth gorau fyddai i chi sgrifennu eich llythyr eich hun!**

## Heddychwr Mawr Cymru

Yn rhifyn Haf 2007 o'r cylchgrawn "CYMOD" ymddangosodd y gyntaf o gyfres o ysgrifau ar heddychwyr Cymru, yn bennaf ar gyfer y genhedlaeth bresennol, sydd, efallai, yn gwybod fawr ddim amdanynt. Yr un a elwid yn 'Heddychwr Mawr Cymru', sef George Maitland Lloyd Davies (1880-1949) oedd y gwr dan sylw, ac mae ei hanes wedi ei groniclo'n llawn mewn dwy gyfrol yn Gymraeg gan E. H.Grifftiths yn sgîl ennill y wobr gyntaf am gofiant i George M.Ll.Davies yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe, 1964. Ers rhai blynyddoedd, bu ambell aelod o Gymdeithas y Cymod yn ceisio mynd i'r afael â chyfieithu'r cyfrolau hyn i'r Saesneg, oherwydd credent ei bod yn bwysig i hanes y gwr arbennig hwn gael sylw ehangach. Erbyn hyn mae cyfieithiad o'r gyfrol gyntaf yn barod, ond, gwaetha'r modd, bu cais y Gymdeithas am gymorth ariannol gan Gyngor Llyfrau Cymru yn aflwyddiannus, ac felly y syniad yw gosod y cyfan, fesul rhannau ar wefan y Gymdeithas cyn bo hir. (www.cymdeithasycymod.org.uk) Er cymaint o siom yw methu â chynhyrchu llyfr go iawn, teimlwn mai'r peth pwysicaf yw dod â bywyd, gwaith a thystiolaeth yr heddychwr o Gristion gloyw hwn i sylw'r byd.

**Nia Rhosier , is Cadeirydd Cymdeithas y Cymod**

## Gwefan dros heddwch

Mae Cymdeithas y Cymod wedi lansio gwefan newydd www.cymdeithasycymod.org.uk sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gweithgareddau, cyhoeddiadau ac adnoddau addysgol ac ymgyrchu y gellir eu lawrlwytho. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys dyddiadur o ddigwyddiadau heddwch a chyfiawnder yng Nghymru, 'siop', a bu hefyd yn gartref i wefan Gwyl Heddwch Cymru 2007 a gynhaliwyd yng Nghaernarfon.

Lansiwyd y wefan â sudd ffrwythau masnach deg a chaneuon heddwch o'r Babell Heddwch yn yr Eisteddfod Genedlaethol gan Robin Gwyndaf a'r we-feistres, Marika Fusser.

**Cysyllter â Chymdeithas y Cymod**
**e: post@cymdeithasycymod.org.uk**
**Cymdeithas y Cymod,**
**d/o 3 Tai Minffordd, Rhostryfan,**
**Caernarfon LL54 7N**
**t: 01286 830 913**

# Pawb ar fwrdd Heddychfad

**Ymunodd cynrychiolwyr BANg (cenhedlaeth Atal Pob Niwc) yn cynnwys Georgia Coles Riley ac Emily Freeman o Gymru, â'r Brifysgol Fyd-eang ar fwrdd 'Heddychfad' – llong wyliau o Japan sy'n ymroddedig i hyrwyddo achos diarfogi, heddwch a dealltwriaeth ryngwladol. Ar y ffordd rhwng Dulyn ac Efrog Newydd, buont yn rhannu gwybodaeth, yn rhedeg gweithdai am arfau niwclear, ac yn trafod materion diwylliannol a phersonol yn ymwneud â'r bygthiad niwclear.**




Mewn achlysur i goffáu Dydd Nagasaki ar stryd yn Efrog Newydd, datganodd y bobl ifanc eu 'Apêl Ieuenctid' (testun talfyredig isod) a'r diwrnod canlynol, cyflwynasant eu hapêl i Bennaeth Swyddfa Materion Diarfogi y CU, Mr. Sergio Duarte, cadeirydd y Gynhadledd Cytundeb Atal Ymlediad a fethodd yn 2005. Dywedodd wrth y ddirprwyaeth ieuenctid mor rhwystredig roedd yntau ynglyn â'r sefyllfa arfau niwclear, ond dywedodd fod safiad y bobl ifanc yn gwneud iddo deimlo'n fwy gobeithiol am y dyfodol.



**Uchod ch - d: Karol Felsner (17), Georgia Coles-Riley (16), Nora Lehner (21), Nina Eisenhardt (17) ac Emily Freeman (20)**



Morita Erina Japan



yn cyrraedd yn Efrog Newydd

## Heddychfad, Y Brifysgol Fyd-eang a Rhwydwaith Ieuenctid Ewropeaidd BANg, Efrog Newydd, Apêl Ieuenctid 9fed Awst 2007

Daethom ni, pobl ifanc o bedwar ban y byd, ynghyd brin ddwy wythnos yn ôl mewn protest ryngwladol yng nghanolfan llongau tanfor niwclear Faslane yn yr Alban. Ymwelodd nifer ohonom â gwaith Ailbrosesu Niwclear Sellafield hefyd, lle gwelsom y fath berygl yw deunyddiau niwclear i bobl, hyd yn oed i ddibenion honedig 'ddiogel' neu 'heddychlon'. Ers hynny, rydym wedi bod yn trafod pwer niwclear, arfau niwclear, ymlediad niwclear, a beth y mae'r rhain oll yn ei olygu i'n dyfodol.

Cawsom gyfle hefyd i glywed am erchyllterau bomiau atomig gan yr Hibakusha. Mae'r posibilrwydd o Hiroshima a Nagasaki arall yn ein dychryn. Rhaid i ni weithredu yn awr, nid anghofio ac nid ailadrodd yr hanes erchyll hwn.

Ar ran ieuenctid y byd, a ieuenctid y dyfodol, yn eu henw nhw a'n henw ninnau, rydym yn apelio ar y bobl, ar lywodraethau ac ar y byd. Ni allwn dderbyn bodolaeth unrhyw fath o arf niwclear.

Testun pryder i ni yw'r ffaith fod ar ein llywodraethau ofn hyfforddi pobl ynglyn ag effeithiau ofnadwy arfau niwclear. Credwn nad yw pobl ifanc yn ddifater ond nad ydynt yn gwybod am yr hyn sy'n digwydd.

Nid ydym am i'n llywodraethau ddefnyddio 'diogelwch' fel esgus dros feddu ar arfau niwclear. Nid ydym yn teimlo'n 'ddiogel'. Ni ddylai unrhyw lywodraeth gynhyrchu, meddu, adnewyddu neu ddefnyddio arfau niwclear yn ein henw ni. Does arnon ni ddim eisiau'r etifeddiaeth ofnadwy hon.

Mae fframweithiau'n bodoli, fel y CAY, a ddylai hwyluso dileu arfau niwclear, ond teimlwn fod yma ddiffyg ewyllys wleidyddol affwysol.
Gofynnwn pam y mae ymryson am bwer gwleidyddol yn cael y flaenoriaeth dros ein bywydau a'n dyfodol.
Gofynnwn pam nad yw diogelwch wedi ei seilio ar fywyd a hawliau dynol go iawn.
Gofynnwn a wnaed unrhyw beth i hybu diarfogi niwclear er mwyn ein diogelu'n wirioneddol.

Gofynnwn pwy a all fynd yn gyfrifol am effaith llygredd ymbelydrol, baich sydd yn cael ei osod ar genedlaethau'r dyfodol.
Gofynnwn pwy a all dderbyn cyfrifoldeb am y niwed a achosir gan ddeunydd wedi ei lygru gan ymbelydredd, gwastraff niwclear a damweiniau niwclear posibl.

Felly, gofynnwn, beth allwn ni ei wneud?
Ar ein pen ein hunain, mae arnom ofn ac rydym yn aml yn teimlo'n ddiymgeledd. Gyda'n gilydd, rydym yn gryfach ac yn cael ein hatgoffa y gallwn wneud rhywbeth. Rydym ni, ar ran pobl ifanc o bedwar ban y byd, yma i ddangos ein cydgadernid gyda'r arweinwyr a'r gwleidyddion, y gweithredwyr a'r dinasyddion dewr hynny sy'n manteisio ar bob cyfle i hybu dileu'r bygythiad niwclear ar lawer lefel wahanol. Ar yr adeg hon mewn hanes, gwelwn gyfle o'n blaenau. Byddai diarfogi niwclear ym Mhrydain yn unig yn esiampl i weddill y byd ac yn fan cychwyn diarfogi niwclear. Gan hynny, galwn ar y llywodraeth Brydeinig i ailfeddwl ei phenderfyniad i adnewyddu system daflegrau Trident.

**Peidiwch â rhoi'r gorau i ddychmygu'r byd y byddech yn breuddwydio amdano pan oeddech yn blentyn. Gweithiwch i amddiffyn popeth rydych yn ei garu. Gwyddom nad oes lle i arfau niwclear yn y byd rydym ni ei eisiau.** Lledaenwch y gair ynglyn â materion niwclear. Dywedwch wrth eich teulu a'ch ffrindiau, a phobl o'ch cwmpas sut rydych chi'n teimlo heddiw.


Cofiwn, yn enwedig wrth i ni weithio gyda'n gilydd a chwrdd â phobl newydd sy'n cytuno â ni, fod gobaith bob amser. Tra bod gennym obaith, mae gennym y gallu i gyflawni'r hyn y gobeithiwn amdano: byd diogel i bawb, byd heb ofn arfau niwclear.

**Mae testun cyflawn yr 'Apêl Ieuenctid' hon a mwy o wybodaeth am BANg ar gael yn www.bang-europe.org**

## Apêl

**Talwyd yn rhannol am gyfranogiad y bobl ifanc o Gymru yn y project hwn gan grant oddi wrth Cynefin y Werin ac CND Cymru. Fodd bynnag, doedd hynny ddim yn ddigon, ac mae'r ddau berson ifanc yma, sydd yn fyfyrwyr ysgol a choleg, wedi gorfod talu £500 o'u pocedi eu hunain. Rydym yn apelio am gefnogaeth a chyfraniadau i helpu. Os gallwch helpu, da chi, anfonwch gyfraniad at Apêl Ieuenctid dros Ddiarfogi, d/o CND Cymru (gweler y cyfeiriad ar dud. 8). Sieciau'n daladwy i: *Môr Di Niwclear***





Akira Uchimura Japan



Morita Erina

## Cystadleuaeth cerdyn post

Roedd enillwyr cystadlaeuaeth cerdyn post ryngwladol BANg yn cynnwys y fyfyrwraig Charlotte Turtle o Lanymddyfri. Os gallech ddosbarthu rhai o'r cardiau post hyn, da chi, cysylltwch ag CND Cymru (gweler tud. 8). Gellir archebu niferoedd mawr neu fach. Anfonwch eich enw a'ch cyfeiriad, nifer o gardiau post a ddymunir, a chyfraniad/stampiau i gwrdd â chostau post. Rhaid i chi fod yn barod i gymryd beth ddaw o ran y dewis.

## Gardd heddwch Greenham

# Helo a ffarwel

**Ar yr 8fed o Fedi, daeth ffrindiau ynghyd i dalu teyrnged i'r blynyddoedd o brotestio di-drais ac i ddathlu diarfogi RAF/USAF Greenham Common yn Berkshire, Lloegr. Parodd protest y menywod, a ddechreuodd gyda thaith gerdded faith o Gymru ym 1981, am 19 blynedd, ac mae wedi cael ei dogfennu mewn modd teilwng. Fodd bynnag, ychydig iawn sy'n hysbys am feddiant milwrol Comin Greenham a sut y llwyddodd y Weinyddiaeth Amddiffyn, a gymerodd feddiant gorfodol o'r tir ym 1939, i ddal gafael arno am fwy na 50 mlynedd.**

Drwy eu gweithredu uniongyrchol di-drais llwyddodd y menywod nid yn unig i gael gwared o 96 o daflegrau cruise niwclear arfog yr UD o'r comin, ond hefyd i herio'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn y llysoedd a'i gorfodi i roi gorau i'w chynlluniau datblygu a dychwelyd y tir i bobl Newbury. Ar yr 8fed o Ebrill 2000, ymgasglodd pobl leol wrth y maes awyr a dechrau torri'r ffens i lawr. Mae Comin Greenham yn awr ar gau am byth i'r lluoedd arfog.

### Yn dal i fod ym mhob man

Gan barhau â'r thema o wrthwynebu'r awdurdodau milwrol, siaradodd Mary Millington, ar ran Côr Cochion Caerdydd, am 'Academi Hyfforddi Milwrol' arfaethedig Sain Tathan sydd ar hyn o bryd yn ffocws gwrthwynebiad y mudiad heddwch a chyfiawnder yng Nghymru. Bydd y ganolfan hyfforddi ryngwladol hon ar gyfer gwyddor a chelfyddyd rhyfel yn costio rhyw £14 biliwn i'r trethdalwr, ac yn cynnig cyfleoedd hyrwyddo i gwmnïau arfau fel Raytheon, y gwneuthurwyr clwstwr-fomiau. Dosbarthwyd deiseb yn erbyn y sarhad enbyd hwn i ymdrechion creu heddwch byd-eang.

### Gofalydd Newydd

Canodd Côr Cochion Caerdydd yn wych, fel arfer. Roedd eu cyfraniad i'r achlysur yn bositif ac yn galonogol. Siaradodd Olwen Leavold, aelod o'r côr, yn Gymraeg am ei balchder am y ffaith mai o Gymru y daeth y syniad am Greenham, a bod Helen Thomas wedi dod â'r Gymraeg i'r Gwersyll. Cafwyd egwyl wedyn i gymdeithasu a mwynhau cacen a gwin.

Troesom ein sylw wedyn at yr Ardd Heddwch. Dylid gweld pwysigrwydd y brotest, yn cynnwys yr ardd, a'i heffaith ar atal rhyfel niwclear mewn goleuni hanesyddol wrth ystyried cyfeiriad y Mudiad Heddwch yn y dyfodol. A minnau'n ymddeol fel Cyd-drefnydd Gardd Heddwch Greenham, telais deyrnged i'r holl fenywod a'r dynion y sicrhaodd eu haelioni y gallasom gwblhau'r ardd – yn enwedig y cyfranwyr hynny o'r genhedlaeth hyn. Dylanwadodd eu profiad nhw o wleidyddiaeth a rhyfel, dros oes, ar yr angen am beidio ag anghofio'r brotest ar Gomin Greenham.

Dyma pryd y trosglwyddais ofal Gardd Heddwch Greenham yn y dyfodol i Katrina Howse, a dreuliodd 18 mlynedd, yn llawn-amser, yng Ngwersyll Heddwch Menywod y Glwyd Felen ar Gomin Greenham. Mae hi'n adnabyddus am ei hymroddiad i bopeth y mae gwersyll heddwch y menywod yn ei gynrychioli. Katrina yn awr yw Cyd-drefnydd Gardd Heddwch Greenham. Wrth dderbyn y cyfrifoldeb, ategodd bwysigrwydd bodolaeth yr Ardd Heddwch – cyfeiriodd at yr hanesydd o ffeminydd a oedd wedi mynegi'r farn ei 'bod yn hanfodol, wrth edrych ar hanes, fod yna dystiolaeth faterol', gan gytuno â hi.

### Yn Anghof Ni Chânt Fod

Ymunodd Kate Hudson, Cadeirydd CND Prydeinig â ni, a sôn am bryderon cyfredol yr ymgyrch, yn enwedig defnydd arfaethedig Menwith Hill a gorsaf radar Fylingdales fel rhan o system Amddiffyn Taflegrau'r UD. Cytunai â'r angen am barhad yn y mudiad heddwch, a chadw cysylltiad â buddugoliaethau'r gorffennol, gan grybwyll y dathliadau arfaethedig, ym mlwyddyn carreg-filltir 2008, i nodi hanner canmlwyddiant sefydlu CND ar yr 17eg o Chwefror 1958 a'r daith gerdded fawr gyntaf y Pasg hwnnw i Aldermaston.

Ar ddiwrnod yn llawn hapusrwydd ac ymrwymiad i heddwch, cefais y fraint o gynnal bendith a seremoni enwi fer ar gyfer merch Katrina Howse a Dafydd Jones. Cafodd Heulwen Tara Jones, a aned ar y 12fed o Ragfyr 2006, ei bendithio â dwr o'r ffynnon sy'n coffáu ac yn nodi'r brotest ar Gomin Greenham gyda'r geiriau 'Women's Peace Camp 1981-2000 -You can't kill the spirit'. Yn hanesyddol, mae dyddiad geni Heulwen yn dra arwyddocaol!

**Sarah Hipperson**

**Nodyn y Golygydd:** y 12fed o Ragfyr 1979 oedd dyddiad y penderfyniad i leoli Taflegrau Cruise niwclear arfog yn Ewrop. Roedd 'Cofleidio'r Gwersyll' yn ddigwyddiad emosiynol ac allweddol a gynhaliwyd ar y 12fed o Ragfyr 1982, pan amgylchynodd 30,000 o fenywod o bob rhan o Brydain a gwledydd eraill y ffens 9 milltir o hyd o gwmpas y gwersyll. Daeth menywod â phob math o bethau i addurno'r ffens – ffotograffau o blant, pobl a llefydd a garent, teganau ac addurniadau ... daeth un fenyw hyd yn oed â'i ffrog briodas a gadael honno ar y ffens! Wrth iddi dywyllu, a'r hofrenyddion a'u llifoleuadau yn chwyrlio uwchben, distawodd pawb a daliodd y menywod o gwmpas ymylon llithrig, lleidiog y gwersyll UD tywyll ganhwyllau. Clywyd lleisiau'n canu 'You Can't Kill the Spirit'....

**Mae CND Cymru yn anfon ein diolchiadau cynnes i Sarah a fu'n warcheidwad mor ofalus ac egnïol o ysbryd Greenham.**

**Ceir mwy o wybodaeth am holl hanes Comin Greenham yn:**
**www.greenham-common-trust.co.uk/history.htm**
**neu www.vortex.uwe.ac.uk/places_of_peace/greenham.htm**
**Gweler hefyd Sarah Hipperson, *Greenham Non-Violent Women v The Crown Prerogative* (Greenham Publications 2005); Ann Pettitt, *Walking to Greenham - How the Peace-Camp began and the Cold War ended* (Honno 2006); Beth Junor, *Greenham Common Women's Peace Camp A History of Non-Violent Resistance 1984-1995.***
**Am wybodaeth bellach am Ardd Heddwch Greenham,**
**t: 0208 989 4819 e: sarah.hipperson@virgin.net**



ffoto: katrina howse

Sarah Hipperson

## Menywod mewn Du Caerdydd

# Dail ar yr un goeden

**Roeddem yn falch iawn i ni fwrw ymlaen â gwylnos mis Tachwedd Menywod mewn Du yng Nghaerdydd er mai dim ond tair ohonom oedd yno. Roedd yn wylnos hyfryd mewn heulwen bendigedig.**

Daeth pâr canol-oed atom, a nododd y dyn fod y ffigwr sydd gennym ar ein poster am y nifer posibl o Iraciaid a laddwyd yn llawer rhy isel. Dywedodd mai Armeniaid oeddynt o Irac. Dywedodd y cawsai ei frawd ei ladd ychydig ddyddiau cyn hynny yn Baghdad – cafodd ei anafu yn y stryd, a gwrthoddodd yr Americaniaid adael i neb fynd ag ef i'r ysbyty. Yn awr, allan nhw mo'i gladdu am nad oes ganddo dystysgrif marwolaeth. Dywedodd y dyn hyn i gyd mewn ychydig o eiriau, yn ddig, ond heb ddrama – roedd yn frawychus, yn gipolwg ar arswyd bywyd bob-dydd yn y rhan fwyaf o Irac.

Teimlwn innau, drwy i ni fod yno y diwrnod hwnnw, o leiaf fod y pâr wedi cwrdd â phobl sydd yn poeni am yr hyn sy'n digwydd yn eu mamwlad. Arhosodd menyw Comin Greenham hefyd i siarad a darganfod pwy ydyn ni, ac roedd hynny'n fy atgoffa o'r ffaith ein bod yn rhan o rwydwaith eang – mae llawer o bobl fel ni sy'n gwneud yr hyn a allwn, bryd bynnag y gallwn, i wneud safiad yn erbyn anghyfiawnder a rhyfel.

**heddweithredu:**

**Mae Menywod mewn Du (MmD) Caerdydd wedi bod yn cwrdd o hanner dydd tan 1 pm i gynnal gwylnos dawel ar ddydd Sadwrn cyntaf pob mis ers yr ymosodiad ar Irac. Gwylnos nesaf: Sadwrn 1af Rhagfyr. Cysyllter ag: Elisabeth Edwards t: 029 2048 1190 e: Fernfire@aol.com Dim gwylnos MmD yn eich ardal chi? Pam na sefydlwch chi un?**

# Yr Ymgyrch i Ddileu'r Fasnach Arfau – grŵp Caerdydd

**Clywodd cyfarfod dan ei sang yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd am natur BAE a llygredd. Eglurodd Symon Hill o YDFA sut y mae 'buddiannau' gwleidyddion a hyd yn oed gweision sifil yn effeithio ar eu persbectif a'u penderfyniadau ynglwn â chynhyrch arfau a'u masnach; sut y mae hyd yn oed dryllau bychain a chwmnïau 'awyrofod' eraill fel Quinetiq yn dibynnu ar BAE i brynu eu nwyddau, a sut y gorbwysleisiwyd mater swyddi er mwyn dadlau achos ffug parthed pwysigrwydd BAE i'r economi. Gyda llaw, datgelodd BAE fod yr ymgyrchoedd milwrol yn Irac ac Afghanistan wedi cynyddu eu helw ar gyfer mis Awst (£501 miliwn, dwbl elw mis Awst 2006). Eglurodd Symon hefyd bwysigrwydd a buddugoliaeth cau cwmni'r llywodraeth Brydeinig (DESO) a fyddai'n arfer dod o hyd i farchnadoedd allforio ar gyfer arfau Prydeinig.**

Siaradodd Nick Hildyard, o 'Corner House', am lygredd yng nghyd-destun y fasnach arfau, nad oedd, fel y pwysleisiai, yn un o 'ffeithiau bywyd' ac y dylid ei herio. Pwysleisiodd nad oedd 'trechaf treisied, gwannaf gweidded' yn iawn, ac y dylai'r gyfraith weinyddu cyfiawnder yn gytbwys i bawb. Dywedodd mai barn y cyhoedd oedd yr elfen gryfaf mewn gwirionedd ar y fath faterion, ac mai'n gwaith ni oedd newid yr hyn y mae pobl (yn cynnwys pawb o'n cwmpas yn ein bywydau bob-dydd yn ogystal â rheini sydd mewn grym a'r cyfryngau) yn ei ystyried yn 'normal' drwy siarad â phobl a dinistrio'r mythau sy'n atal pobl rhag credu fod newid yn bosibl. Profwyd hyn ychydig ddyddiau ar ôl cyfarfod Caerdydd pan roddodd yr Uchel Lys ganiatâd i'r Ymgyrch i Ddileu'r Fasnach Arfau (YDFA) a The Corner House i geisio arolwg barnwrol o benderfyniad y llywodraeth Brydeinig i atal ymchwiliad gan y Swyddfa Twyll Difrifol i lygredd honedig gan British Aerospace (BAE) Systems wrth werthu arfau i Saudi Arabia yn ddiweddar.

**heddweithredu:**

**Gobeithir sefydlu grwp Ymgyrch i Ddileu'r Fasnach Arfau yng Nghaerdydd. Da chi, cysylltwch â Phil Kingston am ragor o fanylion: e: phil.kingston@hotmail.com t: 02920 711 943. Mae grwp YDFA Cristnogol ym Mhenarth eisoes (Cysyllter â Phil am fwy o fanylion). Mwy o wybodaeth ynglwn ag achos BAE: Ymgyrch i Ddileu'r Fasnach Arfau: www.caat.org.uk Corner House: www.thecornerhouse.org.uk Mae peilotiaid o Awyrlu India wedi bod yn hyfforddi ar yr Awyren Hyfforddi Uwch BAE Hawk yn RAF Valley ar Ynys Môn yr haf yma. Mae BAE Systems newydd werthu 66 o awyrennau Hawk i Awyrlu India.**

# Pob agwedd ar fywyd dynol

**Gwyl Heddwch Cymru - Caernarfon**

**Mae pob un o wyliau heddwch Cymru rwyf wedi eu mynychu wedi bod yn eithriadiol, a phob un yn wahanol i'r nesaf. (Rhaid cyfaddef yn y fan yma fy mod wrth fy modd yn mynd i ddigwyddiadau mae rhywun arall wedi eu trefnu.) Roedd Gwyl Heddwch eleni yng Nghaernarfon yn cynnal traddodiad a safon uchel ein digwyddiadau cenedlaethol.**

Roedd gwyl eleni, a drefnwyd gan Grwp Heddwch a Chyfiawnder diwyd Arfon gyda chyllid gan, ymhlith eraill, CND Cymru a Chynefin y Werin, wedi llwyddo i ffitio digwyddiadau wythnos i mewn i ddiwrnod, a bron pob mater yn ymwneud â heddwch a chyfiawnder i mewn i'n calonnau a'n meddyliau twym a derbyngar. Irwyd y cwbl gan gwmni gwych, canu bendigedig (mae'r Côr Gobaith yna yn cyrraedd i bobman) a lleoliad gwych yn Galeri. Roedd hi'n werth bwrw ati i deithio o dde Cymru, mewn haul Medi boreol benidigedig yr holl ffordd, er mwyn bod yno.

Gwrandawodd mwy na 300 o bobl ar Jo Berry, Patrick Magee, Yr Athro Nick Wheeler a Mabon ap Gwynfor yn trafod materion yn ymwneud â heddwch a chyfiawnder. Ysbrydolodd Mabon bob un ohonom drwy sôn am hanes ymgyrchu dros heddwch yng Nghymru. Roedd gwrando ar Jo Berry (y lladdwyd ei thad, Anthony, gan fom Brighton yng nghynhadledd y Blaid Geidwadol ym 1984) a Patrick Magee (a osododd y bom hwnnw, tra'n filwr gyda'r IRA) yn brofiad trawiadol ac emosiynol dros ben.

Dangosodd y ddau fod dynol yma nad oes dim byd hawdd neu 'wan' mewn maddeuant. Dyna ni – cymodi ysbrydoledig, gofalus, meddylgar a phraff ar waith. Siaradodd yr Athro Nick Wheeler o Aberystwyth hefyd am 'ymddiriedaeth' fel elfen hanfodol ar gyfer diarfogi, cysyniad y mae'r sôn amdano'n rhy brin o lawer yn y byd academaidd. Dyna lle'r oedd y gwleidyddol a'r personol, y cwbl yn digwydd ar y llwyfan o'n blaenau.

Dilynwyd hyn gan wledd o weithdai – yn y fan hon, efallai y gallem oll fod wedi elwa ar fwy o amser – fel arfer, byddai wedi bod yn braf gallu mynychu pob un ohonynt. Dangoswyd ffilm wych am Balesteina, 'Goal Dreams', ynglyn â Chymdeithas Bêl-droed Palesteina (a dwi ddim hyd yn oed yn hoff iawn o bêl-droed) ac i gloi, cerddoriaeth dda gan Olive Grooves, Anhrefn, Gwilym Morus, Red Stripe, Olive Grooves DJs ac eraill.

Diolch o galon i Grwp Heddwch a Chyfiawnder Arfon am ei blwyddyn gron o drefnu a gwaith caled.

Penderfynwyd sicrhau cyllid blynyddol rheolaidd ar gyfer yr wyl Heddwch – a fydd yn sicr o gymorth i ddigwyddiad y flwyddyn nesaf. Cadwch lygad yn agored amdano, a pheidiwch â'i fethu!

**Jill Gough**

# Adhawlio'r ddaear a'r nefoedd i achos heddwch

**Croesawyd Bruce Gagnon, Cyd-drefnydd y Rhwydwaith Byd-eang yn erbyn Arfau a Phwer Niwclear yn y Gofod, i Gymru yn yr hydref gan Gynefin y Werin, CND Cymru, y Cyfeillion, a Rhwydwaith Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth, fel rhan o daith fywiog o gwmpas Prydain. Wedi'r gynhadledd 'Amddiffyn Taflegrau: Cynlluniau'r UD i Rannu Ewrop ac Amgylchynu Rwsia' a drefnwyd gan CND yn Llundian, teithiodd Bruce Gymru i annerch cyfarfodydd yng Nghaerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, ac Aberystwyth cyn mynd ymlaen i Groesoswallt, i Leeds, 'RAF'/USAF Fylingdales, Whitby ac yna i'r gwarchae ar bencadlys Trident yn Faslane lle cafodd ef ac Is-gadeirydd CND Prydeinig, Dave Webb, eu restio am rwystro'r ffordd.**

Eglurodd Bruce sut y mae globaleiddio corfforaethol yn ecsploetio llafur rhad mewn gwledydd tramor, a bod swyddi'n cael eu colli yn yr UD. Arfau yw prif allforion yr UD erbyn hyn, ac mae'r Pentagon yn gweld swyddogaeth yr UD fel 'allforiwr diogelwch'. Yr unig ffordd y gellir cynnal hyn a chynyddu elw yw drwy bara i fod mewn cyflwr o fygthiad diddiwedd a rhyfel diddiwedd.

**Dominyddu**

Mae technoleg gofod eisoes yn cael ei defnyddio i ddibenion milwrol. Roedd 70% o'r holl arfau a ddefnyddiwyd yn yr ymosodiadau 'syfrdanu a brawychu' ar Irac yn cael eu cyfarwyddo at eu targedau gan loeren. Mae angen brys am Gytundeb CU newydd i wahardd arfau dinistr torfol yn y gofod yn ogystal ag ar y ddaear, ond mae llywodraeth yr UD yn rhywstro unrhyw gamau i'r cyfeiriad hwn beunydd, tra bod dogfen gynllunio Rheolaeth Gofod Awyrlu'r UD, *Vision for 2020* yn galw am 'reolaeth a domiynyddiaeth' gan yr UD ar y gofod. Peryglir rhaglenni iechyd a lles yr UD gan yr ymdrechion i ddargyfeirio cyllid cyhoeddus i raglenni technoleg gofod. Gofynnir i 'gynghreiriaid' yr UD fuddsoddi hefyd, 'rhag cael eu gadael ar ôl'.

**Dewisiadau**

Siaradodd Bruce ag argyhoeddiad am yr angen i'r mudiad heddwch gyflwyno posibiliadau amgen, er mwyn dangos nad yw'r mater yn ddewis syml rhwng swyddi arfau neu ddim swyddi. Gallai'r cymhlyg milwrol diwydiannol newid yn gyflym iawn i gynhyrchu nwyddau anfilwrol. Byddai adeiladu rhwydwaith effeithiol o reilffyrdd ar draws yr UD yn helpu i wrthbwyso newid hinsawdd ac yn darparu swyddi, er enghraifft, fel y byddai cynhyrchu paneli haul a generaduron gwynt. Byddai i'r ddau olaf hefyd y fantais ychwanegol o leihau'r angen am fynd i ryfel am olew.

**Yr ysbryd mawr**

Yn 11 oed, pan symudodd ei deulu i South Dakota, daeth Bruce yn ymwybodol o gyflwr y bobl Americanaidd frodorol ac astudiodd ddiwylliant a chredoau'r Sioux. Dysgodd ganddynt fod popeth ar y ddaear wedi eu cysylltu mewn 'cylch cysegredig' a bod y cylch hwnnw wedi ei dorri heddiw. Dywedodd 'mae arnom angen ailgysylltiad ysbrydol rhwng y ddaear a'i phobl er mwyn trwsio'r cylch'.



Meddai Bruce am ei ymweliad â gweldydd Prydain: 'Roedd hon yn daith garlamus, gyffrous y byddaf yn ei chofio am amser maith am sawl taith gerdded fendigedig, ei llefydd hardd, a chael cwrdd â gweithredwyr ymroddedig. Rwyf yn ddiolchgar i CND am fy nghael i ddod i Brydain ac i bawb a'm croesawodd.'

# Ewrop yn erbyn ras arfau newydd

**Cyfarfu cynhadledd 'Ewrop dros Heddwch' gyda mwy na 400 o bobl leol a chynrychiolwyr o 17 o wledydd, yn cynnwys Cymru, yn neuadd y dref, Brìznice yn y Weriniaeth Siec yn ddiweddar, i drafod gwrthwynebiad i gynlluniau'r UD ar gyfer adeiladu sefydliadau milwrol newydd yn Ewrop.**

Mae dinasyddion a meiri Siec wedi bod yn brwydro gyda'r awdurdodau am y rhyddid i benderfynu eu hunain a ydynt am i'w gwlad groesawu'r system radar sy'n rhan o gynlluniau 'Amddiffyn' Taflegrau Cenedlaethol (NMD) yr UD. Mae ymgyrchwyr Siec yn awr yn galw am refferendwm ar y mater, ar ôl bod yn cynnal protestiadau di-drais, casglu llofnodion, creu cysylltiadau gyda mudiadau ac unigolion yn y Weriniaeth a thu hwnt i'w ffiniau, ac addysgu cymunedau am y mater. Maent wedi profi nad yw'r mwyafrif o ddinasyddion Siec eisiau sefydliad milwrol yr UD ar eu tir, a'u bod yn gweld system NMD yr UD fel rhagarwydd o gynnydd mewn tensiwn rhyngwladol a man cychwyn 'rhyfel oer' newydd. Mae cynllunwyr milwrol yr UD yn gobeithio y bydd Gwlad Pwyl yn cymryd y 'taflegrau ataliol' ar gyfer y cynllun.

**Hyd a lled**

Mae'r ymgyrch yn cwmpasu didreisedd a hawliau dynol gan gysylltu'r project â phob rhan o'r paratoadau at ryfel a chamau milwrol. Mae Ewrop dros Heddwch yn casglu enwau cefnogwyr ar 'ddatganiad', ac mae wedi derbyn negeseuon o gefnogaeth o bob rhan o'r byd, yn cynnwys rhai gan Noam Chomsky, Mikhail Gorbachev, Mairead Corrigan Maguire, Angelo Baracca, a Tadatoshi Akiba, Maer Hiroshima a alwodd am ddiarfogi niwclear diymdroi ac am derfyn ar baratoadau'r UD am ryfel oer newydd.

**Tanwydd ffosil**

Clywodd y Gynhadledd mai cynlluniau'r UD ar gyfer Ewrop yw sicrhau tra-arglwyddiaeth fyd-eang ar gyfathrebu, marchnadoedd aml-wladol, adnoddau ac arfau drwy ddefnyddio technoleg ofod; bod yr UD am reoli a meddiannu adnoddau tanwydd ffosil (olew yn y Dwyrain Canol, nwy naturiol yn Rwsia), a sut y gallai'r cynlluniau NMD fod yn rhagarwyddo ras arfau newydd. Mae'r dechnoleg yn cael ei gyrru yn ei blaen gan y cwmnïau arfau ac mae holl hyfforddiant milwrol yr UD yn awr yn cynnwys elfen gref o hyfforddi mewn technolegau digidol, ar draws yr holl luoedd arfog.

**Mae Cymru'n rhan o Ewrop hefyd**

Mae Trident yn rhan o'r dechnoleg hon: mae system Trident Prydain yn cael ei chyfeirio gan ddenyddio systemau gofod/lloeren yr UD. Mae cynlluniau milwrol Prydeinig ar gyfer ailwampio ac ad-drefnu'r lluoedd arfog yn cynnwys y systemau newydd hyn, ac mae'r Academi Filwrol arfaethedig yn Sain Tathan yn rhan o'r cynlluniau i ddiweddaru gwybodaeth filwrol arbenigol yn y maes hwn. Mae deunydd hyrwyddo Sain Tathan yn hysbysebu y bydd yn 'cynnig atebion technoleg uwch i broblemau milwrol'. Mae tri chwmni arfau mawr yr UD, Lockheed Martin, Boeing, a Raytheon, yn dibynnu ar amddiffyn taflegrau fel ffynhonnell refiniw ac elw yn y tymor-canol i'r tymor hir. Mae Raytheon, cynhyrchydd arfau pumed fwyaf y byd, yn chwarae rhan flaenllaw ym mhroject Academi Sain Tathan.




**heddweithredu**

**Cysylltiadau/mwy o wybodaeth:**
**CND Prydeinig: www.cnduk.org/pages/campaign/starwrs.html**
**CND Swydd Efrog: www.yorkshirecnd.org.uk**
**NE základnám/Dim Canolfannau Milwrol: www.nezakladnam.cz**
**Cynghrair Meiri'r Weriniaeth Siec: www.starostoveprotiradaru.eu**
**Ewrop dros heddwch: www.europeforpeace.eu**

# dyddiadau dyddiadur

**30 Tachwedd - 1 Rhagfyr Gwylnos Cymdeithas y Cymod** Canolfan yr Urdd, Canolfan y Mileniwm, Caerdydd. Thema: Yr Academi Filwrol arfaethedig yn Sain Tathan. 30 Tachwedd, seminar 7.30pm, dan arweiniad Stuart Tannock. Sadwrn 1 Rhagfyr 10.30am Gwasanaeth Heddwch yng nghapel Bethesda'r Fro yn agos at wersyll yr Awyrlu yn Sain Tathan. Croeso i bawb i'r ddau ddigwyddiad. Nifer gyfyngedig o lefydd aros dros-nos (£45 am lety a bwyd) i gofrestru, cysyllter ag Arfon Rhys: t: 01286 830 913 e:post@cymdeithasycymod.org.uk

**1 Rhagfyr Cynhadledd 'World Against War' Clymblaid Atal y Rhyfel Llundain** i drafod meddiant Irac ac Afghanistan a gwrthwynebu unrhyw ymosodiad ar Iran. Cynrychiolwyr o bedwar ban, yn cynnwys o fudiadau Pwylaidd a Siec sy'n gwrthwynebu cynllun 'Amddiffyn Taflegrau' yr UD. Westminster Central Hall, Llundain. Ffurflenni bwcio: www.stopwar.org.uk i gadw lle, ffoniwch Atal y Rhyfel t: 020 7278 6694.

**10 Rhagfyr 6.15pm Wrecsam, Cyfarfod Cynllunio Fforwm Heddwch a Chyfiawnder Wrecsam** Ty Cwrdd y Cyfeillion, Heol Holt, Wrecsam. Cysyllter â: 0845 330 4505 neu wrexhamwomen@yahoo.co.uk

**50 mlynedd o CND**
Mae CND Prydeinig yn dathlu ei hanner canmlwyddiant yn 2008 ac mae'n eiddgar i glywed gan unrhyw un a ymunodd ag CND yn ei flwyddyn gyntaf ym 1958 ac sy'n dal yn weithgar heddiw. Os oes gennych chi unrhyw ffotograffau neu atgofion o ddyddiau cynnar CND, da chi, cysylltwch â Kate Hudson, CND, 162 Holloway Road, Llundain N7 8DQ e: office@cnduk.org t: 020 7700 2393 Bydd y dathliadau'n cynnwys cyngerdd haf yn Llundain.

**Chwefror 16-17 Uwchgynhadledd Fyd-eang Llundain ar gyfer Byd Heb Arfau Niwclear** Dyma union ddyddiad hanner canmlwyddiant CND. Fe'i cynhelir yn Neuadd y Ddinas gyda chynrychiolwyr o bedwar ban y byd, mewn dwy ran - y naill ar gyfer gwaith diplomatig ac arbenigol, a'r llall ar gyfer gweithredwyr. Bydd y trafodaethau'n canolbwyntio ar sut i feithrin amodau gwleidyddol rhyngwladol ar gyfer diarfogi niwclear a hefyd i rannu 'arfer da'. Ar y nos Sadwrn, gwahoddir pawb a ymunodd ag CND yn ei flwyddyn gyntaf (1958) i dderbyniad penblwydd arbennig.

**Chwefror 23 2008 Penblwydd Hapus Cymru Ddi Niwclear!** Cyfarfod Cyngor CND Cymru, lleoliad i'w gadarnhau, cysyllter ag CND Cymru yn nes at y dyddiad (cysylltiadau) am fanylion.

## Deiseb CND Cymru

Mae pobl yn anfon deisebau Na i Olynydd i Trident, Ie i Gytundeb Arfau Niwclear, sy'n galw ar y llywodraeth Brydeinig i ddileu ei gynllun ar gyfer cael Olynydd i Trident a negydu'n ddiffuant tuag at ddiarfogi niwclear byd-eang, yn ôl atom. Diolch yn fawr iawn am eich gwaith yn casglu llofnodion. Os hoffech ragor o gopïau (y dyddiad cau yw'r 31ain o Fawrth 2008), copi i'w anfon at eich AS neu ACau yn gofyn iddynt ei arwyddo, neu os gwyddoch am fan cyhoeddus neu ddigwyddiad cyhoeddus lle gallech roi cyfle i fwy o bobl i arwyddo, da chi, cysylltwch â swyddfa CND Cymru.

**Dysgwch beth sy'n digwydd ledled Cymru - tanysgrifiwch i e-restr justpeace drwy anfon ebost: just-peace-subscribe@yahoogroups.com**

## Gwnewch Rywbeth ynglŵn â Byrma!

Y cwmni olew Ffrengig, Total yw un o'r buddsoddwyr tramor mwyaf yn Byrma. Mae'r protestiadau y tu allan i fodurdai a swyddfeydd Total ledled Prydain wedi cynnwys protestiadau y tu allan i Garej Total, Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd ac yn Wrecsam fel rhan o'r ymgyrch i alw sylw at y cwmnïau sy'n cynnal unbennaeth filwrol Byrma a rhoi gwybod i Total nad yw hi'n dderbyniol fod cwmnïau yng Nghymru yn cefnogi gormeswyr. Mae Anarchwyr De Cymru yn croesawu pawb a all ddod i'w protestiadau. Gellir cael newyddion dibynadwy ynglŵn â Byrma yn: http://www.burmanet.org/news/ Am fwy o wybodaeth ynglŵn â digwyddiadau yn y dyfodol, cysyllter ag Anarchwyr De Cymru sym: 07798 603706 e: cardiffanarchists@riseup.net www.southwalesanarchists.org .Yn Wrecsam: wrexhamwomen@yahoo.co.uk t: 0845 330 4505
www.burmacampaign.org.uk
Deisebau yn pwyso ar Total a chorfforaethau eraill i atal buddsoddi yn Byrma. www.avaaz.org Deiseb sy'n targedu ac yn pwyso ar China, prif gefnogwr yr oruchwyliaeth yn Byrma. Adroddiadau ar brotestiadau: www.indymedia.org.uk

**Dydd Llun y Pasg 2008 - Digwyddiad 50 mlwyddiant yn SAA Aldermaston**
***Rhowch y dyddiad yma yn eich dyddiadur nawr - bydd bysys yn mynd o Gymru ar y 24ain o Fawrth 2008!*** Ym mlwyddyn hanner canmlwyddiant CND, byddwn yn dathlu hanner canmlwyddiant yr orymdaith gyntaf i Aldermaston. Cynhelir y digwyddiad yn y Sefydliad Arfau Atomig yn Aldermaston - manylion i ddilyn.

## Ewch yn Rhyngwladol!

Os ydych yn aelod o CND Cymru ac am dderbyn llythyron newyddion CND o Loegr a/neu'r Alban, rhowch wybod i ni gan anfon eich enw, cyfeiriad (a rhif aelodaeth os yw hynny'n bosibl) ac o leiaf £5 (taladwy i CND Cymru) i dalu costau ychwanegol, at CND Cymru, d/o yr Ysgrifennydd Cenedlaethol (manylion cysylltu ar dud. 8).

**Croeso i Bryn Aeron Bruce Newman**
**Ganed yn Aberystwyth ddydd Gwener y 26ain o Hydref 2007**
**heddwch / peace**

**llongyfarchiadau oddi wrth bawb i Mike a Denise**



## Parti ar gyfer Plant Chernobyl

Cynhaliodd is-gadeirydd CND Cymru, Olwen Davies, ddathliad penblwydd cerddorol yn Aberystwyth, er budd Project Plant Chernobyl ym mis Hydref, a mwynhaodd pawb mas draw. Cysylltydd Project Plant Chernobyl Aberystwyth yw Galina Latypova t: 01974 241 079 galina@latypova.fsnet.co.uk neu Olwen Davies (gweler cysylltiadau)

## Gweithredu! - gweler tud. 4 am fanylion

**EDM 72 CYTUNDEB AR ARFAU NIWCLEAR 06.11.2007 Jeremy Corbyn**
Fod y Tŵ hwn yn nodi fod deugain mlwyddiant y Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear wrth law; yn nodi ymhellach fod y gymuned ryngwladol yn dal i fethu dileu arfau niwclear neu atal eu hymlediad pellach; yn cytuno â barn unfrydol y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol fod yna ddyletswydd yn bodoli i negydu yn ddiffuant, a sicrhau canlyniad a fydd yn arwain at ddiarfogi niwclear yn ei holl agweddau o dan reolaeth ryngwladol lem ac effeithiol; yn nodi ymhellach ddengmlwyddiant cyflwyniad Costa Rica o fodel o gytundeb arfau niwclear i'r CU i'w drafod; ac yn galw ar y Llywodraeth i weithio i sicrhau fod negydlu amlochrog yn symud ymlaen gyda'r nod o weithredu cytundeb arfau niwclear erbyn 2020.

**EDM 65 Y SENEDD A PHENDERFYNIADAU AR AMDDIFFYN TAFLEGRAU YR UD 06.11.2007 Jeremy Corbyn**
Fod y Tŵ hwn yn cofio'r datganiad gan y cyn-Brif Weinidog ar yr 28ain o Chwefror parthed cyfranogiad y DU yn rhaglen Amddiffyn Taflegrau'r UD, sef 'Rwyf yn siwr y cawn drafodaeth yn y Tŵ . . . Pan fydd gennym gynnig i'w osod ger bron, fe ddown yn ôl a'i osod ger bron'; yn nodi â phryder y gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn ddatganiad ysgrifenedig i'r Tŵ hwn ddiwrnod cyn egwyl yr haf, yn dweud y byddai, yn RAF Menwith Hill, 'offer yn cael ei osod a'i weithredu gan Lywodraeth yr UD i ganiatáu derbyn rhybuddion lloeren am lansio taflegrau a allai fod yn elyniaethus'; yn gresynu nad yw'r datganiad ysgrifenedig yn adlewyrchu ysbryd y broses a gyhoeddwyd gan y cyn-Brif Weinidog; ac yn galw ar y Llywodraeth i drefnu dadl lawn a fydd yn caniatáu i Aelodau anrh. archwilio yn llygad y cyhoedd gynlluniau gweithredu Amddiffyn Taflegrau'r UD yn y DU.


**heddwch**

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru)**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

**Golygydd:**
Jill Gough
(01495) 773 180
heddwcheditor@cndcymru.org

**Cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**Argraffwyd a dosbarthwyd gan:**
Redkite Print
(01591) 610 844
redkiteprint@thefreeflyer.com


## cysylltiadau cnd cymru


**cadeirydd:**
Jill Evans MEP
(01824)709 700
jievans@europarl.eu.int

**is-gaderyddion**
Brian Jones
(01792) 830 330
jonebri.nptc@webmail.digitalbrain.com

Llew Smith

George Crabb
(01446) 774 452
georgecrabb@ybontfaen.freeserve.co.uk

Olwen Davies
(y canolbarth)
(01970) 611 994

Ray Davies (de cymru)
(029 20) 889 514

John Cox
(01495) 773 495
drjohncox@aol.com

**aelodaeth & aelodau**
Caegwyn, Felinfach, Llanbedr-Pont-Steffan SA48 7SA
vegans@ethicalwares.com

**masnachu**
Kate Gwynfyd-Sidford & Del Gwynfyd-Harris
coney@gn.apc.uk
01974 831 575

**trysorydd**
Jean Bryant,
16,Clôs Ty'n y Cymer,
Porth, Y Rhondda CF39 9DE

**golygydd heddwch ac ysgrifenydd cyffredinol:**
Jill Gough,
Y Drain Gwynion, Heol yr Eglwys, Talywaun, Pontypwl NP4 7EF (01495) 773 180
heddwch@cndcymru.org